Gyda'n Gilydd
Ysgol Bodhyfryd

Chwefror 2026

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn y cyfle cyffrous hwn yn ein hysgol. Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried Ysgol Bodhyfryd fel ysgol lle y gallwch wneud gwahaniaeth, gan barhau i wella'r cyfleoedd i'n disgyblion ac i ddatblygu eich gyrfa ymhellach.

Mae Ysgol Bodhyfryd yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n groesawgar, yn gynhwysol ac yn uchelgeisiol. Mae gennym oddeutu 220 o ddisgyblion, gan gynnwys dwy uned ADY sydd â phrofiad helaeth o ddarparu cymorth arbenigol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

Rydym yn ymfalchïo yn yr ymdeimlad gref o gymuned sy'n diffinio ein hysgol, lle mae disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu hyder, chwilfrydedd a chariad at ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yma yn Wrecsam, mae gennym atyniadau gwych o fewn pellter cerdded, er enghraifft safle Erddig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac amrywiaeth o bethau i'ch denu i ganol y ddinas.

Mae gan yr ysgol Gylch Meithrin ar y safle sy'n bwydo i'r ysgol, gyda darpariaeth ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion.

Rydym hefyd yn darparu clwb ar ôl ysgol.

Mae'r brif ysgol wedi'i rhannu'n ddau, gyda'r adran babanod ar un ochr a'r adran iau ar y llall, gydag ardaloedd dysgu a chwarae allanol sy'n berffaith i feddyliau creadigol a phrysur eu harchwilio wrth iddynt ddysgu.

Mae ein staff ymroddedig yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i gyrraedd eu llawn botensial, ac rydym yn ymfalchïo yn y berthynas gadarnhaol rhwng staff a'r disgyblion. Mae gan y corff llywodraethu berthynas waith ragorol gyda'r pennaeth a'r staff presennol, ac mae wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel o addysgu a dysgu, hyrwyddo lles disgyblion, a sicrhau bod ein hysgol yn parhau i ffynnu.

Rydym yn chwilio am bennaeth a fydd yn dod ag arweinyddiaeth ysbrydoledig, eglurder strategol ac ymrwymiad dwfn i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn sy'n gallu adeiladu ar ein cryfderau, arddel ein gwerthoedd, ac arwain yr ysgol yn hyderus trwy'r cam nesaf yn ei datblygiad. Bydd

PENNAETH/HEADTEACHER: NERYS DAVIES

E: mailbox@bodhyfryd-pri.wrexham.sch.uk T: 01978 351168 F: 01978 310307 W: bodhyfryd-pri.wrexham.sch.uk
Ysgol Bodhyfryd, Ffordd Brynycabanau, Wrecsam, LL13 7DA

profiad o weithio gyda darpariaeth ADY, neu ddealltwriaeth gref o ymarfer cynhwysol, yn arbennig o werthfawr o ystyried yr unedau arbenigol yn ein hysgol. Yn y pecyn cais hwn, cewch ragor o fanylion am y swydd, yr ysgol a'r rhinweddau yr ydym yn chwilio amdanynt.  Gobeithio y bydd y wybodaeth yn cynnig esboniad eglur o'r cyfleoedd a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Diolch ichi unwaith eto am ddangos diddordeb mewn ymuno ag Ysgol Bodhyfryd.  Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

**Dyddiad cau: Dydd Gwener 13eg o Fawrth 2026**
**Dyddiadau cyfweliad: w/c Dydd Llun 20fed o Ebrill 2026**

Yn gywir

Linda Subacchi a Rebecca Ap Gwyn

Cadeiryddion Llywodraethwyr Ysgol Bodhyfryd